# SUT YDYN NI'N DEWIS LLWYBR?

## DEUNYDDIAU ATEGOL

Os oes angen cymorth pellach arnoch ar agweddau penodol ar ddysgu yn yr awyr agored, gall y deunyddiau hyn gyfoethogi'r profiadau ymgysylltiol rydych yn eu cynnig. Gallant eich cefnogi wrth i chi ddylunio, cynllunio a gweithredu eich cwricwlwm. Mae dysgu yn yr awyr agored yn ffordd effeithiol o ddatblygu sgiliau cyfannol y dysgwyr (creadigrwydd ac arloesi, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu). Byddwch am ganolbwyntio ar pam mae dysgu'n bwysig a sicrhau eich bod yn diwallu anghenion eich dysgwyr.

Mae'r deunyddiau hyn yn dangos llwybrau y gellid eu dilyn wrth fynd drwy'r gweithgaredd. Nid ydynt wedi'u bwriadu i fod yn rhagnodol. Dylech addasu eich dull gweithredu yn unol ag anghenion a diddordebau eich dysgwyr a'ch ardal leol.

### TROSOLWG

Mae dysgwyr yn archwilio eu dealltwriaeth o beth yw drysfa, maent yn creu map drysfa ac yn ei ddefnyddio i adeiladu drysfa y tu allan. Maent yn ymchwilio i sut brofiad yw dod o hyd i'r ffordd drwy ddrysfa gan ddefnyddio cyfarwyddiadau llafar yn unig, ac yna'n myfyrio ar eu profiadau. Mae dysgwyr yn defnyddio map lloeren o'r ysgol a'r ardal leol ac yn ei ddefnyddio i fraslunio map. Maent yn rhannu mapiau ac yn eu defnyddio i archwilio cyfarwyddiadau o dirnodau sy'n lleol i'r ysgol ac yn ystyried delwedd 3D o'r ardal. Mae dysgwyr yn cerdded o'r tirnod lleol i'r ysgol, cyn adeiladu model o'r llwybr, gan ei gymharu â modelau eu cyfoedion.

### CWRICWLWM I GYMRU

**Meysydd dan sylw:**

- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae'r gweithgaredd hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn y FfLlRh a'r FfCD.

## ADNODDAU

Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd.
Dail a brigau yn nhiroedd yr ysgol.
Deunyddiau wedi'u hailgylchu y gellid eu defnyddio i wneud model, e.e. blychau cardbord, cardbord arall, papur, cartonau bwyd a diod.
Offer mesur, yn ôl yr angen, e.e. prennau mesur, ffyn metr, tapiau mesur hir ar gyfer chwaraeon, mesuryddion camau.

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau.
- Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored. Mae cwestiynau ffocws wedi'u hawgrymu ar gyfer arwain dysgwyr drwy'r tasgau.
- Gallai rhai tasgau fod yn fwy effeithiol os oes gan barau neu grwpiau o ddysgwyr fynediad at ddyfais sy'n darparu mynediad i'r rhyngrwyd.
- Sylwer, os gwelwch yn dda: i gael mynediad at is-deitlau Cymraeg ar fideo, cliciwch ar 'Settings', yna detholwch 'Subtitles', yna 'Auto-translate' a dewis 'Welsh'.
- Wrth fynd â dysgwyr i'r awyr agored, mae'n hanfodol cadw at y Cod Cefn Gwlad a bod unrhyw asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod y risgiau wedi'u lliniaru.

TASG 1

## CREU MAP SYML

I ddechrau, gwahoddir y dysgwyr i archwilio ffotograff o ddrysfa nodweddiadol, cyn ystyried eu profiad o ddrysfeydd a rhoi cynnig ar ddrysfa ar y sgrin.

Cyn gwneud drysfa y tu allan yn yr awyr agored gan ddefnyddio dail neu frigau, gofynnwch i'r dysgwyr greu map o'u drysfa a'i disgrifio i eraill heb ddangos y map iddyn nhw. Gallent ddefnyddio mesuriadau ansafonol neu safonol. Dylai hyn helpu'r dysgwyr i feddwl am iaith sy'n ymwneud â safle.

Anogwch y dysgwyr i ystyried pa mor dda roedd disgrifiadau'r dysgwyr yn cyfateb i'r mapiau go iawn, cyn gofyn iddynt fynd allan i'r awyr agored i adeiladu drysfa gan ddefnyddio'u mapiau. Gwahoddwch y dysgwyr i fyfyrio ar fanteision ac anfanteision defnyddio map i adeiladu drysfa, cyn eu gwahodd i geisio dod o hyd i'r ffordd drwy ddrysfa arall tra'n gwisgo gorchudd llygaid, drwy ddilyn set o gyfarwyddiadau.

TASG 2

# CREU MAP O'R ARDAL LEOL

Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio Google Earth Studio (Saesneg yn unig) i ddod o hyd i ddelwedd lloeren o'r ysgol a'r ardal leol.

Cyfarwyddiadau:

- Cliciwch ar 'Try Earth Studio' – cornel uchaf ar y dde.
- Dewiswch 'Blank Project'.
- Rhowch deitl i'r prosiect a phwyswch 'Start'.
- Yn y bar chwilio – cornel uchaf ar y chwith – teipiwch enw'r ysgol a phwyso 'Enter'.
- Dewiswch y ffrâm o'r ddelwedd lloeren drwy ddefnyddio'r llygoden i'w symud.
- Yn y gornel uchaf ar y dde fe welwch ddelwedd ffotograff. Dewiswch honno a bydd yn cymryd llun o'r hyn sydd o fewn y ffrâm, y gallwch ei ddefnyddio ar y bwrdd gwyn neu ei gopïo i ddogfennau eraill.
- Os ydych chi eisiau map sy'n cynnwys enwau lleoedd, ewch i 'View', yna 'Map Style' ac yna 'Everything'.

Gwahoddwch y dysgwyr i ddefnyddio'r ddelwedd i fraslunio map o'r ardal, gan gynnwys yr ysgol, ffyrdd, adeiladau, caeau ac unrhyw nodweddion diddorol eraill. Anogwch y dysgwyr i rannu eu llinfapiau o fewn eu grwpiau a'u defnyddio i roi cyfarwyddiadau i'w gilydd i deithio o dirnod lleol i'r ysgol.

Gan ddefnyddio Google Earth Studio (Saesneg yn unig) eto, mae dysgwyr yn dod o hyd i ddelwedd 3D o'r ardal ac yn ei defnyddio i ddilyn y llwybr y byddent yn ei gymryd o'r tirnod i'r ysgol. Maent yn cerdded o'r tirnod i'r ysgol cyn adeiladu model o'r llwybr. Maent yn defnyddio'r model i ddisgrifio beth gellir ei synhwyro (ei weld, ei glywed a'i arogli) ar wahanol bwyntiau ar y llwybr ac yna maent yn cymharu eu model gyda modelau eraill yn y dosbarth.

## Dolenni defnyddiol

Map of UK Labyrinths & Mazes - Labyrinths in Britain (Saesneg yn unig) – gallai dysgwyr ei ddefnyddio i ddod o hyd i'r ddrysfa agosaf at yr ysgol ac efallai ymweld â hi.

Bro Morgannwg: WATCH: A-MAZE-ing map of Wales grown from maize - North Wales Live (Saesneg yn unig)

Machynlleth, Gwynedd: The Welsh Legends Maze - Machynlleth - Visit Mid Wales (Saesneg yn unig)

Symonds Yat, Sir Fynwy: Amazing Hedge Puzzle – VisitWales (Saesneg yn unig)

## Gweithgareddau defnyddiol eraill ar Tirlun

Mae'r gweithgareddau eraill ar Tirlun sy'n rhoi ystyriaeth i dynnu llun a defnyddio mapiau yn cynnwys:

- Mapio ein hardal leol
- Sut allwn ni wneud llwybr synhwyraidd?
- Sut ydyn ni'n cyrraedd yno?
- Sut gallwn ni ddatblygu llwybr?
- Archwilio ein tirwedd ddynodedig leol – Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
- Archwilio ein tirwedd ddynodedig leol – Tirwedd Cenedlaethol Ynys Môn
- Archwilio ein tirwedd ddynodedig leol – Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Archwilio ein tirwedd ddynodedig leol – Parc Cenedlaethol Eryri
- Archwilio ein tirwedd ddynodedig leol – Tirwedd Cenedlaethol Gŵyr
- Archwilio ein tirwedd ddynodedig leol – Tirwedd Cenedlaethol Llŷn
- Archwilio ein tirwedd ddynodedig leol – Tirwedd Cenedlaethol Dyffryn Gwy
- Archwilio ein tirwedd ddynodedig leol – Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

Gellir addasu'r rhain i gyd ar gyfer unrhyw leoliad.